Tribiwnlys Prisio Cymru

# CYNGOR CYFFREDINOL YNGHYLCH APELIO YN ERBYN EICH TRETH GYNGOR NEU ARDRETHI ANNOMESTIG

Nid yw'r arweiniad hwn yn cwmpasu pob agwedd o'r broses apêl. Nid oes rhaid i ni ddilyn popeth yn yr arweiniad hwn, ac nid yw'n effeithio ar sut rydym ni'n defnyddio'r deddfau neu reoliadau perthnasol. Byddwn yn ymateb i unrhyw gais rhesymol gennych chi am gyngor neu eglurhad.

## BETH YW'R TRIBIWNLYS PRISIO?

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn gorff annibynnol barnwrol a sefydlwyd gan y gyfraith i wrando ar a phenderfynu ar apelau ynghylch Ardrethi Annomestig, y Dreth Gyngor ac Ardrethi Draenio. Mae Tribiwnlys Prisio Cymru'n gweithredu ledled Cymru ac mae ei swyddfa weinyddol yng Nghasnewydd.

Mae'r Tribiwnlys yn annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA), sy'n gyfrifol am asesu eiddo ar gyfer ardrethi a'r Dreth Gyngor a'r Cyngor/Awdurdod Bilio, sy'n cyhoeddi biliau'r Dreth Gyngor.

Mae aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru yn bobl leol sy'n wirfoddolwyr. Maent yn dod o bob math o gefndir, yn derbyn hyfforddiant ffurfiol ac yn brofiadol o ran gwrando ar apelau. Fel arfer, bydd tri aelod yn gwrando ar eich apêl chi, er y gall dau aelod wrando ar apêl os yw pawb yn y gwrandawiad yn cytuno i hynny. Bydd clerc, sy'n gyflogai a delir gan y Tribiwnlys, yn cynghori ar bwyntiau gweithdrefn a'r gyfraith.

Mae'r Tribiwnlys yn darparu gwasanaeth am ddim felly ni all ddyfarnu costau yn eich erbyn chi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi dalu eich costau eich hun yn gysylltiedig â mynd i wrandawiad Tribiwnlys.

Manylion cyswllt y Tribiwnlys Prisio yw:

Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG
Rhif ffôn: 01633 255003
E-bost: gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru

## SUT YDW I'N APELIO?

### 1. Ardrethi Annomestig a Phrisio'r Dreth Gyngor (Bandio)

Os ydych chi'n anhapus gyda'ch Gwerth Ardrethol neu fand Treth Gyngor, mae'n rhaid i chi gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Cyfeiriad gwefan yr Asiantaeth yw www.voa.gov.uk .

Mae'r broses ar gyfer apelio yn erbyn eich Gwerth Ardrethol wedi newid ar gyfer y Rhestr Ardrethu newydd a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2023 a'r enw amdani yw Gwirio/Herio/Apelio. Bydd y cam cyntaf yn gofyn i chi gysylltu â'r VOA a chadarnhau bod yr wybodaeth sydd ganddi am eich eiddo yn gywir (y cam Gwirio). Unwaith i chi gwblhau'r cam Gwirio, gallwch gyflwyno cynnig yn gofyn am newid yn eich Gwerth Ardrethol neu unrhyw newid arall yn y cofnod Rhestr Ardrethu ar gyfer eich eiddo (y cam Herio). Bydd y VOA yn cyflwyno hysbysiad sy'n rhoi gwybod i chi am ei phenderfyniad ynglŷn â'ch newid arfaethedig ac os ydych yn anfodlon ar y penderfyniad hwn, gallwch apelio i TPC o fewn 4 mis i dderbyn hysbysiad o benderfyniad y VOA. Gellir cyflwyno'r apêl hon trwy borth electronig TPC neu drwy lawrlwytho a chwblhau'r ffurflen apelio sydd i'w chael ar dudalen Ardrethi Busnes ein gwefan www.tribiwnlysprisio.cymru. Fel arall, gallwch gysylltu â'n swyddfa i ofyn am y ffurflen apelio.

Yn yr un modd, newidiodd y broses i herio bandiau Treth Gyngor ar 1 Chwefror 2026. Yn gyntaf bydd angen i chi gyflwyno cynnig i'r VOA yn ceisio newid eich band Treth Gyngor. Gellir cofnodi'r cynnig hwn trwy wefan y VOA, neu gallwch ofyn i'r VOA anfon y ffurflen atoch.

O fewn pedwar mis i'w gyflwyno, dylai'r VOA gyhoeddi hysbysiad yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad mae wedi'i wneud ynglŷn â'ch cynnig. Os ydych yn anghytuno â'i benderfyniad, gallwch apelio i TPC o fewn 4 mis i'w dderbyn. Os na chyhoeddir penderfyniad gan y VOA o fewn y cyfnod hwn, gallwch apelio i TPC o fewn 4 mis o hyd. Mae modd cofnodi apelau gyda TPC gan ddefnyddio ei borth electronig neu trwy lawrlwytho a chwblhau ein ffurflen apelio; mae'r ddau ar gael ar dudalen Bandio Treth Gyngor ein gwefan.

## 2. Atebolrwydd a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Cewch apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad y Cyngor ynghylch eich atebolrwydd y dreth gyngor, cyfrifo'r swm sy'n daladwy neu p'un ai y dylai eich eiddo chi fod wedi'i eithrio ai beidio. Gallai anghydfodau ynghylch cyfrifo'r swm sy'n daladwy gynnwys dyfarnu disgowntiau neu ostyngiad y dreth gyngor.

Yn gyntaf mae'n rhaid i chi ysgrifennu at y Cyngor a darparu manylion eich anghydfod chi. Dylai'r Cyngor ymateb gyda'i benderfyniad cyn pen dau fis. Os ydych chi'n anhapus gyda'r penderfyniad hwnnw ac yn dymuno apelio, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Tribiwnlys cyn pen deufis o benderfyniad y Cyngor.

Os nad yw'r Cyngor yn ysgrifennu atoch chi cyn pen dau fis, cewch barhau i gyflwyno apêl cyn belled nad oes mwy na phedwar mis wedi mynd heibio ers i chi ysgrifennu at y Cyngor yn y tro cyntaf.

Nid yw'r Tribiwnlys yn gwrando ar apelau ynghylch Budd-dal Tai neu'r rhesymau pam nad ydych chi wedi talu eich bil Treth Gyngor. Dylech gysylltu gyda'ch cyngor lleol am gyngor ynghylch y materion hyn.

## 3. Hysbysiadau Cwblhau

Os yw'r Cyngor yn cyflwyno hysbysiad cwblhau i chi ac rydych chi o'r farn nad yw'r gwaith i'r eiddo wedi'i orffen neu na ellir ei orffen yn rhesymol erbyn y dyddiad yn yr hysbysiad, cewch apelio'n uniongyrchol atom ni.

Os ydych chi'n dymuno apelio, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Tribiwnlys cyn pen pedair wythnos o dderbyn yr hysbysiad cwblhau. Dylech gyflwyno eich apêl yn ysgrifenedig a rhaid cynnwys copi o'r hysbysiad cwblhau. Dylech gyflwyno apêl ar wahân ar gyfer pob hysbysiad cwblhau.

## 4. Hysbysiadau Cosb ac Apelau Ardrethi Draenio

Mae'r Tribiwnlys hefyd yn gwrando ar apelau yn erbyn cosbau a gyflwynwyd gan y VOA neu'r Cyngor am beidio â darparu'r wybodaeth y mae ganddynt yr hawl i ofyn amdani neu am roi gwybodaeth anghywir yn fwriadol.

Mae apelau yn erbyn asesiadau ardrethi draenio a bennwyd gan Fwrdd Draenio yn dod o dan awdurdodaeth y Tribiwnlys Prisio.

## BETH SY’N DIGWYDD AR ÔL I’R TRIBIWNLYS DDERBYN APÊL?

Byddwn yn anfon hysbysiad atoch chi yn cydnabod derbyn eich apêl. Mae arweiniad ynghylch ymdrin ag apelau ar gael ar wefan Tribiwnlys Prisio Cymru neu gellir gofyn am gopi trwy gysylltu â swyddfa’r Tribiwnlys.

Byddwch yn cael eich hysbysu o leiaf bedair wythnos cyn dyddiad y gwrandawiad. Os na fedrwch chi ddod i’r gwrandawiad ar y dyddiad a’r amser a nodwyd, cewch ofyn am ddyddiad gwrandawiad arall neu gall y Tribiwnlys ymdrin â’ch achos chi yn eich absenoldeb.

Os yw’r achos yn cael ei ohirio gall fod gryn amser nes i ni fedru rhoi dyddiad gwrandawiad newydd i chi.

## BETH SY’N DIGWYDD MEWN GWRANDAWIAD TRIBIWNLYS?

Fel arfer mae'r gweithrediadau yn y gwrandawiad yn anffurfiol, serch hynny, mae gweithdrefnau’r Tribiwnlys yn cael eu llywodraethu gan y gyfraith ac mae ganddo ei Brotocolau ei hun (arferion a gweithdrefnau) a Chyfarwyddiadau Safonol ar gyfer apelau Rhestr Ardrethu 2023, sy’n darparu rhagor o arweiniad ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan y partïon sy’n ymddangos o’i flaen. Mae’r Protocolau hyn a rhagor o arweiniad i’w gweld ar ein gwefan.

Bydd y Tribiwnlys yn penderfynu pwy fydd yn cyflwyno eu hachos gyntaf a bydd yn sicrhau bod y rhai sy’n anghyfarwydd â gweithdrefnau’r Tribiwnlys yn cael pob cyfle i gyflwyno eu tystiolaeth, a bod y ffeithiau perthnasol yn cael eu cyflwyno mor llawn ag y bo’n bosibl.

**Os nad ydych chi na'ch cynrychiolydd yn mynychu'r gwrandawiad, heb roi rhybudd ymlaen llaw, gall y tribiwnlys ddiddymu neu wrthod yr apêl.**

**Os oes gennych chi unrhyw anghenion yn ymwneud â’ch golwg, clyw neu symudedd, er engrhaifft, neu os oes arnoch chi angen cyfieithydd, gadewch i swyddfa’r Tribiwnlys wybod ymlaen llaw, os gwelwch yn dda, ac fe wnawn ein gorau i gynorthwyo.**

## RHAGOR O WYBODAETH

Cynhelir gwrandawiadau yn Swyddfa’r Tribiwnlys, adeiladau cyhoeddu a lleoliadau addas eraill. Gellir gofyn i chi fod yn bresennol wyneb yn wyneb neu drwy gyswllt fideo.

Paratoir yr hysbysiadau yn Gymraeg a/neu yn Saesneg, yn dibynnu ar yr iaith a ddefnyddiwyd i gyflwyno’r apêl wreiddiol.

Croesewir gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd ysgrifennu atom ni yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r gyfraith yn caniatáu i unrhyw un ymweld â swyddfa Tribiwnlys i edrych ar gopïau agendâu a phenderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys yn y chwe mlynedd ddiwethaf. Agendâu yw rhestrau apelau y rhoddwyd dyddiad gwrandawiad iddynt.

Cewch ragor o wybodaeth am Dribiwnlys Prisio Cymru, ei restrau a'i benderfyniadau apelau a'i gyhoeddiad ar y wefan hon: [www.tribiwnlysprisio.cymru](http://www.tribiwnlysprisio.cymru)

**Deddfwriaeth berthnasol**

Gweinyddir Ardrethi Annomestig a'r Dreth Gyngor gan Ddeddfau Cyllid Llywodraeth Leol 1988, 1992 a 2012 a rheoliadau cefnogol, yn benodol:

i) Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (fel y'u diwygiwyd)
ii) Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023;
iii) Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Newid Rhestrau ac Apelau) 1993 (fel y'u diwygiwyd);
iv) Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012 (fel y'u diwygiwyd); a
v) Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012 (fel y'u diwygiwyd).